

Ymateb i Covid-19 – Hysbysiad Preifatrwydd Cyflogeion

Wedi ichi gyflwyno'ch prawf, mae'r llythyr hwn yn esbonio beth fydd yn digwydd â chanlyniadau'ch prawf.

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydweithio fel bod modd cymryd eich profion a'u dadansoddi mor gyflym â phosibl. Mae'r Bwrdd Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod canlyniadau'ch prawf yn cael eu hanfon atoch chi yn y ffordd fwyaf effeithlon a diogel yn y cyfnod anodd iawn hwn.

Bydd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ac Iechyd Cyhoeddus Cymru'n derbyn gwybodaeth amdanoch chi oddi wrth eich cyflogwr. Bydd y Bwrdd Iechyd yn casglu'ch prawf i'w ddadansoddi a bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru'n ei ddadansoddi. Bydd y canlyniadau i gyd yn cael eu gosod ar eich cofnod iechyd digidol. Pan fydd eich canlyniadau ar gael, maen nhw'n cael eu storio'n electronig ar system gyfrifiadurol Iechyd Cyhoeddus Cymru. O'r pwynt hwn, rydyn ni'n defnyddio sefydliad sy'n bartner dibynadwy, sef Healthcare Communications, fel prosesydd data sy'n gweithio ar ein rhan. Byddan nhw'n cyrchu'ch canlyniad ac yn ei rannu â chi drwy neges destun, gan ddefnyddio'r rhif ffon symudol rydych chi wedi'i roi.

Eich cyfrifoldeb chi fel gweithiwr allweddol yw rhoi gwybod i'r sefydliad rydych chi'n gweithio iddo am eich canlyniad, neu ganlyniad unrhyw un ar eich aelwyd a allai effeithio ar eich presenoldeb yn eich gwaith. Atgoffir chi bod gofyn ichi, dan ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch, gydweithredu â'ch cyflogwr, er mwyn caniatáu iddyn nhw gydymffurfio â'r gyfraith. Diolch ichi ymlaen llaw am eich cydweithrediad yn hyn o beth.

Sylwch na fydd eich cyflogwr yn cael gwybod am ganlyniad eich prawf oni bai eich bod yn gyflogai Bwrdd Iechyd Addysgu Powys lle bo'ch rôl yn galw am ofalu'n uniongyrchol am gleifion.

Beth ydy'r sail gyfreithiol ar gyfer ein ffordd o ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol?

Mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth bersonol rydyn ni'n ei phrosesu wedi'i darparu i ni yn uniongyrchol gennych chi a, dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), y seiliau cyfreithiol rydyn ni'n dibynnu arnyn nhw ar gyfer defnyddio'ch gwybodaeth bersonol yw:

- GDPR Erthygl 6 (e) sydd ei hangen arnom ni i berfformio tasg gyhoeddus

Wrth gasglu data am eich iechyd, rydyn ni hefyd yn dibynnu ar y seiliau cyfreithiol a ganlyn:

- GDPR Erthygl 9 (2) (h) Darparu meddyginiaeth ataliol neu alwedigaethol, gofal iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth, neu reoli systemau iechyd neu ofal cymdeithasol
- GDPR Erthygl 9 (2) (i) Iechyd Cyhoeddus
- GDPR Erthygl 9 (2) (g) Budd sylweddol y cyhoedd

Deddf Diogelu Data 2018 – Atodlen 1, Rhan 1, (2) (2) (f) – Dibenion iechyd a gofal cymdeithasol

Deddf Diogelu Data 2018 – Atodlen 1, Rhan 1, (3) (a) – sy'n angenrheidiol am resymau budd y cyhoedd ym maes iechyd cyhoeddus

Deddf Diogelu Data 2018 – Atodlen 1, Rhan 2 (6) Dibenion statudol a llywodraethu

Eich hawliau

Dan y gyfraith diogelu data, mae gennych chi hawliau sy'n cynnwys:

- Eich hawl i weld gwybodaeth – Mae gennych chi'r hawl i ofyn i ni am gopiâu o'ch gwybodaeth bersonol.
- Eich hawl i gywiro – Mae gennych chi'r hawl i ofyn i ni gywiro gwybodaeth rydych chi'n meddwl sy'n anghywir. Mae gennych chi hefyd yr hawl i ofyn i ni wneud yn siŵr bod eich gwybodaeth yn gyflawn os ydych chi'n credu ei bod yn anghyflawn.
- Eich hawl i gyfyngu ar brosesu – Mae gennych chi'r hawl i ofyn i ni gyfyngu ar brosesu'ch gwybodaeth mewn rhai amgylchiadau penodol.
- Eich hawl i wrthwynebu prosesu – Mae gennych chi'r hawl i wrthwynebu prosesu'ch data personol mewn rhai amgylchiadau penodol.

Cewch gysylltu â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i arfer eich hawliau o ran gwybodaeth yn achos y wybodaeth bersonol honno sy'n cael ei phrosesu yn ystod gweithgareddau Profi, Orlhain a Diogelu.

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am sut y mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys neu Iechyd Cyhoeddus Cymru'n trin eich data personol, neu sut rydyn ni'n gweithio gyda phroseswyr data, ewch i'r gwefannau a ganlyn sy'n cynnwys eu prif hysbysiadau preifatrwydd.

Os oes gennych chi unrhyw bryderon neu gwynion am y ffordd y mae unrhyw sefydliad sy'n rhan o'r broses hon wedi trin eich data personol fe ddylech chi, yn y lle cyntaf, gysylltu â Swyddog Diogelu Data y sefydliad hwnnw. Ond os ydych chi dal yn anfodlon, gallwch chi gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth trwy fynd i wales@ico.org.uk

BIAP: <http://www.powysthb.wales.nhs.uk/page/80765>

Iechyd Cyhoeddus Cymru: <https://icc.gig.cymru/defnydd-y-safle/hysbysiad-preifatrwydd/>

Llofnodwyd ar ran Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Enw: **Wyn Parry FRCS**

Swydd: Cyfarwyddwr Meddygol a Gwarcheidwad Caldicott

Llofnod



Dyddiad: 8/6/20

Llofnodwyd ar ran Iechyd Cyhoeddus Cymru:

Enw: **John Lawson**

Swydd: **Swyddog Diogelu Data**

Llofnod:



Dyddiad: 9/6/20